y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 40 | DYDD GWENER, HYDREF 2, 2009 | Pris 40c

‘GŴYL HIRDDYDD HAF’

Dosbarth Myrddin – Henaduriaeth Myrddin

Gyda ffurfio’r dosbarth newydd, Dosbarth Myrddin, a fu gynt yn ddosbarthiadau Meidrim a De Myrddin, cynhaliwyd sawl trafodaeth fywiog yn y Cyrddau Dosbarth diweddar ynglŷn â’r posibilrwydd o ddod at ein gilydd o bryd i’w gilydd fel eglwysi’r Dosbarth er mwyn cael cyfle i ddod i ’nabod ein gilydd yn well.

Helen Gibbon (ar y piano)

Llawenydd mawr oedd llwyddo i gynnal y cyntaf o’r cyfarfodydd hyn ar b’nawn Sul, Medi’r 6ed. Daeth yn agos at 60 o bobl o bob oed at ei gilydd i gyd-addoli yn yr awyr agored mewn llecyn braf, er ychydig yn wyntog, ger y môr yn Llansteffan.

Dyna hyfryd oedd cael cwmnïaeth aelodau’r gwahanol eglwysi a gweld y bobl ifanc, wrth iddynt adnabod ei gilydd drwy’r gwahanol ysgolion, yn medru uniaethu â’i gilydd mewn addoliad.

Cymerwyd at y darlleniadau a’r gweddïau gan gynrychiolwyr yr eglwysi a chafwyd eitem Gerddorol Fendithiol gan ferched ifainc Y Babell, Pensarn. Roedd y cyfan wedi ei baratoi gan y Parchg. Beti-Wyn James sydd yn weinidog ar Gapel Bancyfelin a chafwyd neges bwrpasol ganddi ar y defnydd o amser. Er ein bod i gyd yn dyheu am fwy o amser yn y dydd i gyflawni ein gorchwylion, eto i gyd nid yw’r corff yn medru ymdopi gyda mwy nag y mae Duw wedi ordeinio ar ein cyfer. “Y mae amser i bob peth” a chawn ganllawiau pendant iawn yn yr ysgrythurau am y ffyrdd o wneud hynny.

Emyr Williams, Capel Tŷ Hen a’r Parchg Beti-Wyn, Bancyfelin yn darllen yn yr oedfa

Cafwyd cymorth parod nifer o aelodau’r dosbarth yn nhrefniadau’r dydd, yn darparu system sain, taflenni canu a chysgod mewn ffurf amryw o ‘gazeebos’ gan nad oedd rhagolygan y tywydd yn ffafriol iawn! Da yw adrodd bod y glaw wedi cadw draw a chafwyd cyfle, ar ddiwedd yr oedfa, i barhau’r gymdeithas dros baned a brechdan.

P’nawn a fydd yn aros yn y côf am hir amser. Mawr yw ein gobaith mai’r cyfarfod hwn fydd y cyntaf o nifer yn Nosbarth Myrddin.

Helen Gibbon

Y gynulleidfa a ddaeth ynghyd ar gyfer yr Ŵyl dirddydd Haf yn Llansteffan

A OES TEILYNGDOD

Wrth gymeryd y gwasanaeth ym mhabell yr eglwysi yn yr Eisteddfod ar y bore Mawrth, soniais am y profiad o fod yn y pafiliwn ym Mhenybont-ar-Ogwr yn 1998 pan y cyhoeddwyd nad oedd neb yn deilwng o ennill y gadair. Go brin roeddwn yn meddwl y byddai yr un peth yn digwydd eto o fewn tri diwrnod o amser!

Ar y ddau achlysur, roedd gan y beirniaid rhai pethau canmoladwy i ddweud am yr ymgeiswyr ond ddim digon i haeddu ennill y gadair wrth gwrs.

Yn ystod y gwasanaeth ar y bore Mawrth, darllenwyd tri darn byr allan o Luc, pennod 18 gan Mrs. Eunice Rowlands, yn cynrychioli Eglwys yr Annibynwyr yn Y Bala. Y cyntaf oedd am y Pharisead hwnnw yn canmol ei hun gerbron Duw yn y Deml; yn sôn am y pethau da roedd efe yn ei wneud a’r pethau drwg roedd yn eu osgoi gwneud – ond er hynny, nid oedd ei rinweddau i gyd yn ddigon i’w gyfiawnhau gerbron Duw; nid oedd efe yn deilwng i ennill y gadair megis.

Yn yr ail ddarlleniad, clywsom am y llywodraethwr ifanc cyfoethog a ddaeth at yr Iesu, ond er ei fod yn ymffrostio yn y ffaith ei fod wedi cadw yr oll o’r gorchmynion o’i blentyndod, nid oedd hwn chwaith yn gallu cyfiawnhau ei hun gerbron Duw – nid oedd hwn yn deilwng o ennill y gadair am iddo wrthod ufuddhau i gais yr Iesu i werthu ei holl eiddo a rhoi yr arian i’r tlawd.

Ond beth am y trydydd cymeriad, – y casglwr trethi? Nid oedd gan hwn unrhyw rinweddau i frolio amdanynt gerbron Duw er mwyn cyfiawnhau ei hun. Ei unig gri oedd, “Bydd drugarog wrthyf, y pechadur,” a rydym yn darllen mai hwn oedd yr unig un a aeth adref wedi ei gyfiawnhau.

Beth amdanom ni? A ydym yn ceisio cyfiawnhau ein hunain trwy restru ein gweithredoedd da a’n rhinweddau gan obeithio y byddant yn ddigon i ennill cadair i ni yn y nefoedd? Neu a ydym yn barod i waeddi allan am drugaredd Duw ac am deilyngdod yr Iesu drosom?

Yr Iawn a dalwyd ar y groes yw sylfaen f’enaid gwan,
wrth bwyso arno ddydd a nos ’rwy’n digwyl dod i’r lan.

Parch. Eric Green, *Bala.*